OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 334 (Cy. 89)

# NEWID YN YR HINSAWDD, CYMRU

## Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *19 Mawrth 2021* |

Yn unol ag adran 48(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016(**1**) ("y Ddeddf"), gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

Cyn i'r drafft gael ei osod, roedd Gweinidogion Cymru wedi cael cyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd(**3**), ac wedi ystyried y cyngor a gafwyd, yn unol ag adran 49(1) o'r Ddeddf.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 33(4) o'r Ddeddf, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 19 Mawrth 2021.

### Terfyn unedau carbon

**2.** Y terfyn ar swm yr unedau carbon y caniateir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru am y cyfnod cyllidebol 2021-2025 yw 0% o'r gyllideb garbon.

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

17 Mawrth 2021

(**1**) 2016 dccc 3.
(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 48(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
(**3**) Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yw'r corff cynghori perthnasol i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 44(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod terfyn ar swm yr unedau carbon y caniateir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru yn unol ag adran 33(4) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae adran 33 o'r Ddeddf yn darparu mai cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer cyfnod yw swm allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr plws unrhyw unedau carbon a ddidynnir o'r cyfrif, a minws unrhyw unedau carbon a gredydir i'r cyfrif yn ystod y cyfnod.

Mae adran 33(4) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod terfyn ar swm yr unedau carbon y caniateir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru am gyfnod cyllidebol.

Mae rheoliad 2 yn gosod terfyn ar nifer yr unedau carbon y caniateir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru am y cyfnod cyllidebol 2021-2025, sef terfyn o 0% o'r gyllideb garbon.

Yn unol ag adran 49 o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi cael cyngor gan y corff cynghori, ac wedi ystyried y cyngor a gafwyd, cyn gosod rheoliadau drafft.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.